Cyllid & Tollau EM

# Cais am awdurdodiad gweithdrefn arbennig y tollau ar gyfer porthladdoedd rhydd

Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am awdurdodiad i weithredu fel busnes porthladd rhydd. Gallwch wneud cais am fwy nag un awdurdodiad busnes ond mae'n rhaid cyflwyno pob cais newydd ar gopi ar wahân o'r ffurflen hon. Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn darllen yr arweiniad ar weithdrefn arbennig y tollau ar gyfer porthladdoedd rhydd ar GOV.UK cyn llenwi'r ffurflen hon.

Mae'r ffurflen wedi'i rhannu'n bedair adran.

**Adran A – mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r adran hon**

Gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch:

- eich Rhif Cofrestru ac Adnabod Gweithredwyr Economaidd (EORI) - os nad oes gennych rif EORI yn barod (heblaw eich bod yn unigolyn preifat), rhaid i chi wneud cais am un cyn llenwi'r ffurflen hon
- gwybodaeth am eich busnes
- cyfeirnod TWE
- UTR (Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr)

**Adran B – mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch storio lenwi'r adran hon**

Bydd angen i chi fod â manylion y nwyddau rydych am eu mewnforio, gan gynnwys disgrifiad ohonynt, eu maint a'u gwerth.

**Adran C – mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch prosesu lenwi'r adran hon**

Gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch ar gyfer gweithgarwch prosesu:

- manylion y nwyddau rydych am eu mewnforio, gan gynnwys disgrifiad ohonynt, eu maint a'u gwerth
- manylion yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud gyda'r nwyddau

**Adran D – mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch ecséis lenwi'r adran hon**

Gwybodaeth y bydd ei hangen arnoch ar gyfer gweithgarwch ecséis:

- y math o weithgarwch ecséis rydych chi neu unrhyw bersonél allweddol wedi bod ynghlwm wrtho yn ystod y chwe blynedd diwethaf
- copïau o gynlluniau'r safle os ydych yn bwriadu dal nwyddau o dan y weithdrefn porthladdoedd rhydd
- manylion y safle - gan gynnwys manylion y prydleswr os caiff y safle ei brydlesu
- manylion dosbarthiadau o nwyddau yr ydych am allu eu derbyn i'r warws
- manylion unrhyw weithrediadau rydych am eu cyflawni ar nwyddau a gedwir mewn warws
- os ydych yn bwriadu cynhyrchu nwyddau ecséis yn y porthladd rhydd, ochr yn ochr â'ch cais i gael eich awdurdodi fel busnes ecséis yn y porthladd rhydd, bydd angen i chi wneud cais ar wahân am yr awdurdodiad cynhyrchu ecséis perthnasol (neu fod â'r awdurdodiad hwnnw'n barod) ar gyfer y busnes ecséis bwriadedig yn y porthladd rhydd

Ar gyfer yr awdurdodiad hwn, ni fydd angen i chi roi Gwarant Tollau Gynhwysfawr fel arfer - bydd Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn rhoi gwybod i chi os oes angen un ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno.

**Pwysig**

Os ydych yn anfon cais sy'n cynnwys mwy nag un lleoliad, cwblhewch adran A a'r datganiad unwaith, a chwblhewch adrannau B, C a D ar gyfer pob lleoliad. Os hoffech ychwanegu lleoliad ychwanegol yn nes ymlaen, bydd angen i chi gwblhau cais newydd.

## Adran A – mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r adran hon

Gweler y nodyn 'Pwysig' uchod ynglŷn ag anfon sawl cais.

**A1** Enw'r ymgeisydd o'r busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer EORI

**A2** Cyfeiriad llawn y busnes sydd wedi'i gofrestru ar gyfer EORI

Cyfeiriad

Cod post

**A3** Rhif EORI

**A4** Beth yw statws cyfreithiol eich busnes?

- Cwmni cyfyngedig ☐
- Partneriaeth ☐
- Unig berchennog ☐
- Arall, rhowch fanylion isod ☐

## Adran A – mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r adran hon (parhad)

**A5** **Rhif cofrestru'r cwmni (CRN) os yw wedi'i gofrestru**

**A6** **Cyfeirnod TWE**

**A7** **UTR (cyfeirnod unigryw y trethdalwr)**

**A8** **Enw cyswllt y person sy'n gyfrifol am yr awdurdodiad**

**A9** **Rôl neu deitl swydd y cyswllt uchod**

**A10** **Rhif ffôn**

**A11** **Os ydych yn hapus i gael cyswllt â CThEM dros e-bost, rhowch eich cyfeiriad e-bost isod – darllenwch y dudalen olaf i gael rhagor o wybodaeth am ddiogelwch dogfennau**

**A12** **Ym mha borthladdoedd rhydd yr hoffech weithredu fel busnes porthladd rhydd?** Ticiwch bob blwch sy'n berthnasol isod. Bydd angen i chi lenwi copi newydd o'r ffurflen hon ar gyfer pob lleoliad ychwanegol. Adrannau B, C a D yn unig y bydd angen i chi eu llenwi ar gyfer pob ffurflen ychwanegol.

- Dwyrain Canolbarth Lloegr ☐
- Felixstowe a Harwich ☐
- Rhanbarth Humber ☐
- Rhanbarth Dinas Lerpwl ☐
- Plymouth ☐
- Solent ☐
- Thames ☐
- Teesside ☐

**A13** **A oes gennych dystiolaeth o gytundeb rhwng gweithredwr y safle tollau porthladd rhydd a'ch busnes, sy'n nodi y gallwch chi weithredu ar ei safle?**

Nac oes ☐ Oes ☐

**A14** **A oes gennych gyfeiriad lleoliad eich porthladd rhydd?**

Nac oes ☐ Oes ☐ Os 'Oes', rhowch y cyfeiriad isod

Cyfeiriad

Cod post

**A15** **Pa weithgarwch busnes y bydd eich busnes yn ymgymryd ag ef?**

Mewnforio nwyddau i'w storio a'u hallforio neu i'w gwerthu yn y DU (os ydych yn dewis yr opsiwn hwn, bydd angen i chi lenwi Adran B isod) ☐

Mewnforio nwyddau i'w prosesu a'u hallforio neu i'w gwerthu yn y DU (os ydych yn dewis yr opsiwn hwn, bydd angen i chi lenwi Adran C isod) ☐

Mewnforio nwyddau ecséis i'w storio a'u hallforio neu i'w gwerthu yn y DU (os ydych yn dewis yr opsiwn hwn, bydd angen i chi lenwi Adrannau B a D) ☐

Mewnforio nwyddau ecséis i'w prosesu (os ydych yn dewis yr opsiwn hwn, bydd angen i chi lenwi Adrannau C a D) ☐

Cyn y gallwch gynhyrchu nwyddau ecséis o dan weithdrefn porthladdoedd rhydd, bydd angen i chi sicrhau bod gennych y gymeradwyaeth gynhyrchu ecséis berthnasol. ☐

Os ydych am storio, prosesu a chynhyrchu nwyddau ecséis (ar ôl sicrhau'r gymeradwyaeth gynhyrchu berthnasol) llenwch adrannau B, C a D.

**A16** **A oes gennych awdurdodiadau gweithdrefn arbennig neu gymeradwyaethau ecséis eisoes?**
Ticiwch y blwch isod os yw'r rhain gennych

Mewnforio nwyddau i'w storio a'u hallforio neu i'w gwerthu yn y DU ☐

Mewnforio nwyddau i'w prosesu a'u hallforio neu i'w gwerthu yn y DU ☐

Storio, prosesu neu gynhyrchu nwyddau ecséis ☐

### Y math o gyfrifon neu gofnodion a'u lleoliad

Mae cofnodion yn cyfeirio at y data sy'n cynnwys yr holl wybodaeth a manylion technegol angenrheidiol, sy'n galluogi'r awdurdodau tollau i oruchwylio a rheoli'r weithdrefn tollau.

## Adran A – mae'n rhaid i bob ymgeisydd lenwi'r adran hon (parhad)

**A17** **Cyfeiriad lle mae'r prif gyfrifon a chofnodion tollau yn cael eu cadw a bod modd cael gafael arnynt yno**

A yw'r cyfeiriad hwn yr un peth â'r cyfeiriad cofrestredig ar gyfer EORI?

Nac ydy ☐ Ydy ☐

Os 'Nac ydy', rhowch y cyfeiriad isod

| |
|---|
| Cyfeiriad |
| |
| |
| Cod post |

**A18** **Pa fath o gofnodion (cofnodion stoc) sy'n cael eu cadw gennych ar gyfer y gweithdrefnau tollau, gan gynnwys ecséis pan fo'n berthnasol?**

**A19** **Beth yw eich dull o gadw cofnodion stoc?**
Dewiswch un o'r dulliau isod

Ar gyfrifiadur ☐ Â llaw ☐

**A20** **Dylech gynnwys eich gweithdrefnau a chofnodion stoc arfaethedig gyda'r cais hwn. Mae'n rhaid i chi gynnwys:**

- **trosolwg o'r gweithdrefnau**
- **manyleb o'r cofnodion stoc arfaethedig**

**A ydych wedi cynnwys y rhain gyda'ch cais?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os 'Nac ydw', esboniwch pam isod

**A21** **Beth yw'r dull rydych yn bwriadu ei ddefnyddio i ddatgan nwyddau i mewn i'r weithdrefn ar gyfer porthladdoedd rhydd?**

C21 Gweithdrefn datganiad symlach (Cyfraith y DU) ☐

Datganiad drwy ymddygiad ☐

**A22** **A ydych yn bwriadu defnyddio trefniadau cludo i symud eich nwyddau i mewn neu allan o'ch busnes porthladd rhydd?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

## Adran B – storio

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch storio lenwi'r adran hon. Bydd angen i chi gael manylion am y nwyddau rydych am eu mewnforio, gan gynnwys disgrifiad ohonynt, eu maint a'u gwerth.

**B1** **Rhif EORI**

### Manylion y gweithgareddau arfaethedig

**B2** **Disgrifiwch natur y gweithgareddau arfaethedig i'w cynnal ar y nwyddau yn y weithdrefn tollau**

### Cyfeiriad y man y bwriedir cynnal y gweithgarwch

**B3** **A yw'r cyfeiriad hwn yr un peth â chyfeiriad y porthladd rhydd?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐ Os 'Nac ydy', rhowch y cyfeiriad isod

Cyfeiriad

Cod post

### Dull adnabod

**B4** **Nodwch y dull adnabod rydych yn bwriadu ei ddefnyddio**

Dewiswch o leiaf 1 opsiwn

Rhif cyfresol neu rif y gwneuthurwr ☐

Gosod gwaith plymio, seliau, marciau clip neu unrhyw farciau nodedig eraill ☐

Cymryd samplau, darluniau neu ddisgrifiadau technegol ☐

Dadansoddi ☐

Dulliau eraill o adnabod, rhowch y manylion yn y blwch isod ☐

### Cyfradd colledion

**B5** **A ydych yn rhagweld colledion wrth storio?**
Disgwylir colledion gyda rhai nwyddau, er enghraifft, oherwydd anweddiad, nwyddau yn glynu at y peipiau, neu wrth i rawn neu hylifau ollwng.

Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os 'Ydw', nodwch y manylion isod

### Storio nwyddau nad ydynt yn rhan o'r trefniadau

**B6** **A ydych yn bwriadu defnyddio trefniant storio cyffredin neu nwyddau sydd gyfwerth?** Gallwch ddysgu rhagor am hyn yn arweiniad gweithdrefn arbennig y tollau ar gyfer porthladdoedd rhydd ar GOV.UK.

Nac ydw ☐ Ydw ☐

**B7** **Disgrifiad o'r nwyddau**

**B8** **Ansawdd masnachol a nodweddion technegol y nwyddau**

## Adran B – storio (parhad)

**B9** **A yw'r nwyddau'n debygol o achosi perygl?**

Nac ydynt ☐ Ydynt ☐

Os 'Ydynt', nodwch y manylion isod

**B10** **A yw'r nwyddau yn debygol o ddifetha nwyddau eraill?**

Nac ydynt ☐ Ydynt ☐

**B11** **A oes angen unrhyw gyfleusterau arbennig ar y nwyddau am resymau eraill?**

Nac oes ☐ Oes ☐

Os 'Oes', rhowch fanylion pam bod angen cyfleusterau arbennig ar y nwyddau

## Adran C – prosesu

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n ymgymryd â gweithgarwch prosesu lenwi'r adran hon. Dyma'r wybodaeth y bydd ei hangen arnoch ar gyfer y gweithgarwch prosesu:

- manylion y nwyddau rydych am eu mewnforio, gan gynnwys disgrifiad ohonynt, eu maint a'u gwerth
- manylion o'r hyn rydych yn bwriadu ei wneud gyda'r nwyddau

**C1 Rhif EORI**

**Cyfeiriad y man y bwriedir cynnal y gweithgarwch**

**C2 A yw'r cyfeiriad hwn yr un peth â chyfeiriad lleoliad y porthladd rhydd?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐

Os 'Nac ydy', nodwch y cyfeiriad isod

Cyfeiriad

Cod post

**C3 Dewiswch y dull adnabod rydych yn bwriadu ei ddefnyddio**

Dewiswch o leiaf 1 opsiwn

- Rhif cyfresol neu rif y gwneuthurwr ☐
- Gosod gwaith plymio, seliau, marciau clip neu unrhyw farciau nodedig eraill ☐
- Cymryd samplau, darluniau neu ddisgrifiadau technegol ☐
- Dadansoddi ☐
- Dulliau eraill o adnabod, rhowch y manylion yn y blwch isod ☐

**C4 Disgrifiad o'r nwyddau**

**C5 Amcangyfrif o faint o nwyddau**

Er enghraifft, kg, litrau, nifer yr eitemau - amcangyfrif o faint o nwyddau bob blwyddyn. Cysylltwch â'r swyddfa goruchwylio os yw hyn yn newid yn y dyfodol.

**C6 Gwerth amcangyfrifedig y nwyddau**

Nodwch werth amcangyfrifedig dilys y nwyddau

**C7 Rhowch fanylion y prosesau y mae angen eu cynnal**

**C8 Cyfnod o ryddhau mewn misoedd**

Nodwch nifer y misoedd sydd eu hangen i gynnal y gweithrediadau o fewn y weithdrefn tollau.

## Adran C – prosesu (parhad)

**C9 Nodwch sut ydych yn bwriadu gwaredu'r nwyddau**

Gallwch ddysgu mwy am hyn yn ein harweiniad ar weithdrefn arbennig y tollau ar gyfer porthladdoedd rhydd ar GOV.UK.

Ail-allforio ☐

Cylchrediad rhydd ☐

At weithdrefn tollau gwahanol ☐

At ddeiliad awdurdodiad porthladd rhydd arall ☐

Dull gwaredu symlach gwahanol ☐

Os gwnaethoch ddewis 'Dull gwaredu symlach gwahanol' rhowch wybod pa ddull yw hwnnw. Dewiswch o leiaf un opsiwn:

Y lluoedd arfog ☐

Sefydliadau'r Llynges, y Fyddin a'r Llu Awyr (NAAFI) ☐

Swyddfeydd diplomyddol ☐

Bynceri neu storfeydd llongau ☐

Siopau ar gyfer y lluoedd arfog ☐

Prydau bwyd ar hambwrdd ☐

Tanwydd hedfan ☐

Arall, nodwch y manylion isod ☐

**C10 Pa ddull prisio ydych yn bwriadu ei ddefnyddio i ryddhau'r weithdrefn?**

Yn seiliedig ar werth cynhyrchion sydd wedi'u digolledu. Gellid cael gafael ar hyn o dan Reoliadau Gweithdrefnau Arbennig a Phrosesu Allanol (Ymadael â'r DU) 2018, Adran 4, Pennod 23, 1a a b ☐

Yn seiliedig ar werth y nwyddau sydd wedi'u mewnforio. Gellid cael gafael ar hyn o dan Reoliadau Gweithdrefnau Arbennig a Phrosesu Allanol (Ymadael â'r DU) 2018, Adran 4, Pennod 23, 1a a b ☐

**C11 A hoffech ddefnyddio cyfwerthedd?**

Gallwch ddysgu rhagor am hyn yn yr arweiniad ar weithdrefn arbennig y tollau ar gyfer porthladdoedd rhydd ar GOV.UK.

Na hoffwn ☐ Hoffwn ☐

## Adran D – ecséis

**D1** **Pa fath o weithgarwch ecséis ydych chi, neu unrhyw bersonél allweddol yn y busnes a enwir, wedi bod ynghlwm wrtho yn ystod y chwe blynedd diwethaf?** Er enghraifft, perchennog cofrestredig, bragwr trwyddedig. Rhowch wybod i ni am geisiadau sydd wedi'u cymeradwyo a'u gwrthod, gan gynnwys y dyddiadau, a rhowch rifau unrhyw gymeradwyaethau.

**D2** **A yw'r enw masnachu yn wahanol i'r enw warws ecséis porthladdoedd rhydd?**

Nac ydy ☐ Ydy ☐

Os 'Ydy', nodwch y manylion isod

**D3** **Atodwch gopi o gynllun y safle gan nodi'r ardaloedd lle rydych yn bwriadu dal nwyddau o dan y weithdrefn porthladdoedd rhydd.**

Rwy'n cadarnhau fy mod yn atodi cynllun y safle gyda'r cais hwn ☐

**Manylion y safle**

**D4** **Ai'n cael ei berchen, neu'n cael ei brydlesu, y mae'r safle?**

Ei berchen ☐ Ei brydlesu ☐

Os yw'r safle'n cael ei brydlesu, rhowch gyfeiriad y prydleswyr, y rhif ffôn, y rhif ffacs, y cyfeiriad e-bost a'r rhif TAW

**D5** **Beth yw oriau agor arfaethedig y warws ecséis porthladdoedd rhydd?** Nodwch y manylion ar gyfer bob dydd, gan gynnwys yr oriau agor a chau.

**D6** **O'r rhestr, dangoswch ddosbarthiadau'r nwyddau rydych am gael eu derbyn i'r warws ecséis porthladdoedd rhydd**

**Tybaco**
Pa gynhyrchion tybaco y byddwch yn eu storio?

Pob math o gynhyrchion tybaco ☐

Categorïau penodol o gynhyrchion tybaco ☐

**Cwrw**

Pob math o gwrw ☐

**Gwin**
Pa fath o win y byddwch yn ei storio?

Pob math o win ☐

Mathau penodol o win ☐

**Categorïau o win y byddwch yn eu storio**

Gwin nad yw'n pefrio ☐

Gwin pefriog ☐

**Cynhyrchion canolradd**

Pob math o gynhyrchion canolradd ☐

Cynhyrchion canolradd (gwin cadarn a gwneuthuredig rhwng 15% a 22%) ☐

**Seidr a pherai**

Pob math o seidr a pherai ☐

**Gwirodydd**
Pa fath o wirodydd y byddwch yn eu storio?

Pob math o alcohol ☐

Is-gategorïau ☐

**Categorïau o wirodydd y byddwch yn eu storio**

Diodydd gwirodol ☐

Alcohol ethyl ☐

Alcohol annatureiddiedig ☐

Cynhyrchion eraill sy'n cynnwys alcohol ethyl ☐

**Hydrocarbonau**
Rhowch fanylion

## Adran D – ecséis (parhad)

**D7** **Rhowch fanylion y nwyddau ecséis**

**D8** **A ydych yn gwneud cais am ganiatâd i wneud gwaith ar nwyddau wedi'u warysu?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os 'Ydw', nodwch y manylion isod

**D9** **A ydych yn dymuno storio nwyddau ecséis y talwyd toll arnynt o fewn ardal y warws ecséis porthladdoedd rhydd?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

**D10** **A ydych am gynhyrchu nwyddau ecséis o dan y weithdrefn arbennig ar gyfer porthladdoedd rhydd?**

Nac ydw ☐ Ydw ☐

## Datganiad

**A ydych am atodi dogfennau ychwanegol?** Nac ydw ☐ Ydw ☐

Os 'Ydw', cadarnhewch yn y blwch isod beth yw'r dogfennau ychwanegol hyn a beth maen nhw'n eu cynnwys.

**A ydych wedi atodi eich gweithdrefnau a'ch cofnodion stoc arfaethedig?** Nac ydw ☐ Ydw ☐

**A ydych wedi atodi'ch tystiolaeth o gytundeb rhwng gweithredwr y safle tollau porthladd rhydd a'ch busnes?** Nac ydw ☐ Ydw ☐

**A oes gennych asesiad risg iechyd a diogelwch ar waith ar gyfer lleoliad y gweithgarwch busnes?** Nac oes ☐ Oes ☐

Drwy gyflwyno'r cais hwn:

- Cytunaf i gydymffurfio â gofynion y weithdrefn Parth Rhydd a bod yr wybodaeth sydd wedi'i rhoi gennyf ar y ffurflen hon ac mewn unrhyw ddogfen ategol yn gywir ac yn gyflawn
- Byddaf yn rhoi gwybod i CThEM am unrhyw newidiadau i'r wybodaeth a ddarperir ar ôl i'r awdurdodiad gael ei roi
- Rwy'n deall y bydd CThEM yn rhoi gwybod i weithredwr y safle tollau os na fydd yr awdurdodiad hwn yn dal i fod mewn grym am ba bynnag rheswm a chytunaf â hyn

**Enw llawn**

**Swydd yn y cwmni - er enghraifft, ysgrifennydd y cwmni, cyfarwyddwr**

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud nawr

Gallwch gyflwyno'r ffurflen hon ac unrhyw atodiadau eraill dros e-bost, gan nodi - 'Cais am fusnes porthladd rhydd' / 'Freeport business application' fel teitl pwnc yr e-bost a nodi enw'ch busnes, i freeportbusinessapplications@hmrc.gov.uk. Bydd y tîm yn cysylltu â chi'n fuan i'ch helpu drwy'r broses.

Sylwer - mae terfyn data wrth anfon e-byst at CThEM. Os ydych yn bwriadu anfon data dros 8MB, efallai y bydd angen i chi rannu'ch cais yn fwy nag un e-bost neu gywasgu maint unrhyw ddata ac atodiadau.

Gallwch hefyd bostio'r cais a'r gwaith papur atodol i:
Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg CThEM
HMRC
BX9 1ST

### Diogelwch gwybodaeth a dogfennau

Pwysig - darllenwch y canlynol cyn cyflwyno'r cais hwn.

**Ticiwch y blwch hwn i gadarnhau eich bod yn deall ac yn derbyn y risgiau a nodir isod** ☐

Mae CThEM yn cymryd diogelwch gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Drwy roi eich cyfeiriad e-bost ar y ffurflen hon, rydych yn cadarnhau eich bod yn fodlon i ni anfon gwybodaeth am fanylion eich busnes, gan gynnwys gwybodaeth ariannol a defnyddio atodiadau. Mae hyn yn berthnasol i'r holl faterion sy'n ymwneud â'ch cais am awdurdodiad fel busnes porthladd rhydd.

Mae'r prif beryglon o ddefnyddio e-byst sy'n ymwneud â CThEM fel a ganlyn:

- cyfrinachedd a phreifatrwydd - mae risg y gallai e-byst a anfonir dros y rhyngrwyd gael eu rhyng-gipio
- cadarnhau pwy ydych - mae'n hanfodol ein bod yn cyfathrebu gyda chysylltiadau busnes sefydledig drwy eu cyfeiriadau e-bost cywir yn unig
- nid oes sicrwydd bod e-bost a geir dros rwydwaith anniogel, fel y rhyngrwyd, heb gael ei newid ar y ffordd
- gallai gwybodaeth ariannol gael ei chamddefnyddio - gallai atodiadau gynnwys feirws neu god maleisus
- byddwn yn gwneud gwybodaeth yn llai sensitif, er enghraifft drwy ddefnyddio rhan o gyfeirnod unigryw yn unig - rydym yn hapus i drafod sut y gallech wneud yr un peth ond dal i roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom
- drwy roi eich cyfeiriad e-bost rydych yn cadarnhau eich bod yn deall ac yn derbyn y risgiau hyn - bydd y cadarnhad hwn yn cael ei gadw ar ffeil a bydd yn berthnasol i bob gohebiaeth e-bost yn y dyfodol nes byddwn wedi cael gwybod fel arall
- os byddai'n well gennych i ni beidio ag ymateb i'ch ymholiad drwy e-bost - er enghraifft, gan fod gan bobl eraill fynediad at eich cyfrif e-bost o bosibl, rydym yn fodlon ymateb drwy ddull arall y bydd angen cytuno arno

I gael rhagor o wybodaeth, gweler Polisi preifatrwydd CThEM